



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Ffioedd Adennill Costau

Fersiwn: 3

Dyddiad: Ionawr 2017

Disgwyf Adolygiad: Ionawr 2019

Disgrifiad: Mae'r ddogfen hon yn amlinellu costau'r gwasanaeth a ffioedd y cyfleuster sy'n berthnasol i ymholiadau Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.

Ffynhonnell: Mae'r ddogfen *Ffioedd Adennill Costau CAH GGAT* wedi'i hysgrifennu ar ran Ymddiriedolaeth Elusennol CAH GGAT. Mae'r ddogfen hon wedi'i seilio ar wybodaeth o *Polisi Mynediad a Chodi Tâl Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru* (adolygwyd Chwefror 2017) ac mae'n cynnwys y wybodaeth honno.



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Ffioedd Adennill Costau

Adennill Costau Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf

Sefydliad dielw yw Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent; fodd bynnag, fel arfer, dylai defnyddwyr ddisgwyl talu cost resymol i gwrdd â chostau darparu gwybodaeth. Byddir hefyd yn codi tâl i gwrdd â chostau deunyddiau a ddefnyddir.

- Bydd ymholiad CAH safonol yn darparu gwybodaeth graidd a digwyddiadau o ddata-bas digidol y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol; fodd bynnag **cedwir gwybodaeth ychwanegol sylweddol yn ein cofnodion papur**. Ni chodir tâl ychwanegol am ymweliad â CAH sy'n ymwneud â'r ymholiad gwreiddiol a amlinellir ar y ffurflen ymholiadau.
- Fel arfer ni fyddir yn codi am ymholiadau oddi wrth academyddion, aelodau'r cyhoedd a chymdeithasau archaeolegol a hanesyddol cydnabyddedig;¹ caiff y gwasanaeth hwn gymorth gan arian grant cyfyngedig. Fodd bynnag byddir yn codi tâl i gwrdd â chostau os bydd yr ymholwr yn gofyn am ddeunydd sy'n fwy na'r hyn a ddisgwylir o ymchwiliad sylfaenol, er enghraifft copïau o ffotograffau, adroddiadau neu ddogfennau papur.
- Codir tâl gwasanaeth am ymholiadau gan gyrrff neu unigolion sy'n gwneud gwaith masnachol neu waith prosiect y maent yn cael grant amdano. Codir y tâl hwn er mwyn cwrdd â chost amser staff i gynnal yr ymholiad fel y gofynnwyd amdano ar ffurflen Ymholiad CAH.

Tâl Gwasanaeth

- £100 + TAW yr awr neu am gyfran o awr yw'r raddfa dalu sylfaenol i ddarparu gwybodaeth o'r CAH. £100 + TAW fydd y lleiafswm. Darperir canlyniadau o fewn pump i saith diwrnod gwaith.
- £130 + TAW yr awr neu am gyfran o awr yw'r raddfa dalu flaenoriaethol i ddarparu gwybodaeth o'r CAH. £130 + TAW fydd y lleiafswm. Darperir canlyniadau o fewn dau ddiwrnod gwaith.
- **Rhoddir y gwasanaeth os yw ar gael pan wneir y cais**

Byddir yn ychwanegu TAW ar y raddfa gyfredol, lle bo'n berthnasol ar gyfer y gwasanaethau a ganlyn

Llun-gopïo ac Argraffu Taflenni

- Taflenni A4 (du a gwyn), y daflen 40c
- Taflenni A4 (lliw), y daflen £1.00

¹ Ac eithrio pan fo'r ymholiad yn ymwneud â phrosiect y mae'r ymholwr wedi'i ariannu i'w gyflawni

- Taflenni A4 (du a gwyn), y daflen 60c
- Taflenni A4 (lliw), y daflen £1.50

Atgynhyrchu Adroddiadau

Mae llawer o'r adroddiadau 'llynyddiaeth lwyd' yn y CAH bellach ar gael fel ffeiliau PDF ar Archwilio lle mae modd eu lawrlwytho'n rhad ac am ddim. Dylai cwsmeriaid sy'n dymuno cael copïau o adroddiadau nad ydynt eto ar lein gysylltu â CAH i weld a fyddai'n bosib darparu PDF. Gallwn hefyd ddarparu copïau argraffedig i'r cwsmeriaid hynny sy'n methu ymdrin â deunydd digidol. Gan y caiff y rhain eu cynhyrchu ar gais, bydd prisiau'n dibynnu ar nifer y tudalennau gydag addasiadau priodol yn ôl faint o dudalennau du a gwyn a thudalennau lliw a ddefnyddiwyd (gweler y cyfraddau ar gyfer llungopïo ac argraffu). Dylai cwsmeriaid gysylltu â staff CAH i drafod eu gofynion.

Mewn achosion lle nad yw Ymddiriedolaeth Elusennol CAH GGAT wedi'i hawdurdodi i wneud copïau o adroddiadau, fel arfer, mae staff CAH yn gallu cyfeirio ymholwyr at y deilydd hawlfraint priodol.

Darparu Copïau o Ddelweddau – ffynhonnell ddigidol/annigidol

Mae delweddau ar gael yn rhad ac am ddim ar Archwilio, at ddibenion ymchwilio yn unig: gweler y telerau ac amodau. Mae'r CAH hefyd yn cadw detholiad eang o ddelweddau eraill y mae modd i gwsmeriaid eu harchebu.

Delweddau eraill, (i fyny 5 delweddau):

- Digidol eisoes yn bodoli a anfonwyd trwy e-bost £1.00
- Sgan newydd a anfonwyd trwy e-bost £10.00

Bydd y taliadau a ganlyn yn cael eu hychwanegu at y cyfraddau uchod ar gyfer cynhyrchu delweddau copi caled:

- Print du a gwyn A4 ar bapur llungopïo di-sglein gwyn (80gsm) 40c
- Print lliw A4 ar bapur llungopïo di-sglein gwyn(80gsm) £1.00
- Print du a gwyn A4 ar bapur argraffydd laser gorffenwaith sidan gwyn (100gsm) £1.00
- Print lliw A4 ar bapur argraffydd laser gorffenwaith sidan gwyn (100gsm) £2.00

Rhaid i gwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio delweddau o'r CAH (yn cynnwys y rhai hynny sydd ar gael ar Archwilio) yn eu cyhoeddiadau eu hunain gael trwydded.

Ffioedd atgynhyrchu

Mae ffi ychwanegol yn daladwy i atgynhyrchu delweddau ar lein neu mewn print (fesul delwedd).

- Atgynhyrchu ar lein £5
- Atgynhyrchiad mewn llyfr, cyfnodolyn, papur newydd neu gyfrwng print arall £20
- Atgynhyrchiad mewn rhaglen deledu £20

Postio a Chludiad (Cyfraddau ail ddsbarth y Deyrnas Unedig)

- Bydd yn amrywio'n ôl y pwysau a'r deunydd a ddefnyddir. Gellir rhoi amcangyfrif pan gyflwynir yr archeb.

Copïau CD

Os darperir data digidol ar CD, codir £5 ychwanegol am bob CD.

Telerau talu

- **Codir o leiaf £5 am yr holl nwyddau a gwasanaethau (ac eithrio gwaith llungopïo neu argraffu y telir arian amdano gan ymwelwyr â CAH) er mwyn cwrdd â chostau gweinyddol.**
- Rhaid derbyn archeb dalu neu brynu cyn anfon y nwyddau allan.
- Dylai taliadau gael eu gwneud o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr anfoneb. Dylid gwneud sicciau'n daladwy i **Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent.**
- Codir £10.00 am daliadau a wneir mewn unrhyw arian ac eithrio sterling.

Mae copïo'n amodol ar berchenogaeth hawlfraint ac, mewn rhai achosion, bydd angen ymgynghori â deilydd hawlfraint cyn bydd modd rhyddhau deunydd.

Am ragor o wybodaeth am hawlfraint, edrychwch ar ein ffurflen ymholiadau CAH.